
Maniffesto ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021

Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar



Mae'r Blynyddoedd Cyntaf yn Bwysig


Mae profiadau plant yn ystod diwrnodau, wythnosau a blynyddoedd cyntaf eu bywyd yn cael effaith sylweddol ar weddill eu bywydau.

Mae'r profiadau cynharaf hyn yn effeithio ar ddatblygiad deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant. Maent yn effeithio ar eu hymddygiad a'u perthnasoedd yn y dyfodol, eu canlyniadau addysgol, y cyfleoedd a ddaw i'w rhan a'u hiechyd corfforol a meddyliol.

Yn syml iawn, y pethau sy'n digwydd a'r perthnasoedd sy'n cael eu ffurfio yn ystod y 1,000 diwrnod cyntaf – ac yn wir, cyn eu geni – sy'n gosod y sylfeini ar gyfer bywyd hapus a iach i bob plentyn yng Nghymru. Mae tystiolaeth foesol, gymdeithasol ac economaidd gref ynghylch pam mae'n hanfodol cefnogi babanod a'u teuluoedd yn effeithiol yn ystod y cyfnod ffurfiol yma o'u bywydau. Trwy gydymffurfio â CCUHP a buddsoddi'n gynnar yn llesiant emosiynol babanod, rydym ni'n buddsoddi yn nyfodol pob plentyn yng Nghymru. Gall y manteision hynny barhau am oes, ac ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.

Mae'r sector blynyddoedd cynnar yn cefnogi plant 0-7 oed a'u teuluoedd. Er bod angen cefnogaeth o safon uchel ar hyd y cyfnod hwn, mae angen sicrhau mwy o bwyslais ac ymrwymiad gwleidyddol ar gyfer y cyfnod o 0-3.

Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod pob plentyn yn cael bywyd hapus a iach gartref, yn ogystal â mynediad at wasanaethau a gofal plant sydd fel ei gilydd o safon uchel ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru. I wneud hynny mae'n rhaid i ni gydnabod a gwerthfawrogi proffesiynoldeb ac effaith y rhai sy'n gweithio ar draws y sbectrwm llawn o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn y blynyddoedd cynnar.



Gwybodaeth am Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys cynrychiolwyr o BookTrust Cymru, Plant yng Nghymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Home Start Cymru, Mudiad Meithrin, Achub y Plant, NSPCC Cymru, Chwarae Cymru a PACEY Cymru.

Fe'i ffurfiwyd yn 2020 i ddod â chyrrff trydydd sector sydd â ffocws ar y Blynyddoedd Cynnar at ei gilydd, a sefydlu llais ar y cyd i symbylu a gweithredu newid cadarnhaol ar gyfer y plant ifancaf.

Mae'r grŵp yn cael ei gynnull gan Plant yng Nghymru.



Early Years
Wales
Blynyddoedd
Cynnar Cymru



Save the Children
Achub y Plant



NSPCC
CYMRU | WALES

HOME
START

pacey | CYMRU

Cymru

Gwneud i'r dyddiau cyntaf gyfri ar gyfer pob plentyn yng Nghymru

Rydym ni'n galw ar holl bleidiau gwleidyddol Cymru i...

...Wneud y 1000 Diwrnod Cyntaf yn ganolog i benderfyniadau a buddsoddi

- Sicrhau bod pwysigrwydd 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn nid yn unig yn cael ei gydnabod ond hefyd yn ganolog i'r llywodraeth, ac yn brif flaenoriaeth ystyrlon ar draws meysydd polisi a buddsoddi.
- Ymrwymo i gefnogi hyn â buddsoddiad clir a thryloyw mewn ystod o ddarpariaeth a chefnogaeth i blant a theuluoedd, o'u cenhedlu ar hyd y blynyddoedd cynnar. Dylai'r buddsoddiad hwn gydnabod yr ystod eang o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau sy'n cael effaith ar fywydau plant ifanc.
- Sicrhau cydlyniant, atebolrwydd clir a thryloywder yn y llywodraeth ynghylch polisi a buddsoddi ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar. Dylai hynny gynnwys penodi arweinydd ar gyfer plant yn y Cabinet a sefydlu is-bwyllgor cabinet i blant.
- Sicrhau bod llais y plant ifancaf, yn ogystal â rhieni a gofalwyr, yn ganolog i wneud penderfyniadau a llunio polisi.

...Cefnogi pawb sy'n gofalu am blant ac yn gweithio gyda theuluoedd

- Sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn derbyn hyfforddiant parhaus o safon uchel ym maes datblygiad plentyn, gyda ffocws ar bwysigrwydd llesiant a datblygiad emosiynol yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf.
- Ymrwymo i gynyddu dealltwriaeth o pam mae'r 1000 diwrnod cyntaf yn hanfodol i lwyddiant plant a chymdeithas yn y dyfodol, ymhlith rhieni a gofalwyr, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

- Ariannu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn ddigonol, fel bod pob rhiant yn gallu cael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl amenedigol sy'n bodloni'r safonau cenedlaethol ar yr adeg pan fydd angen, yn ardal pob bwrdd iechyd yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn cefnogi rhieni a gofalwyr yn y cartref, yn ogystal â thrwy ofal plant o safon uchel.

Mae angen cefnogi rhieni i ymgysylltu â dysgu a datblygiad eu plant gartref. Mae amgylchedd hapus, iach yn y cartref, gyda pherthynas ac ymlyniad clos rhwng oedolyn a phlentyn, yn cefnogi plant i gyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol. Mae'n rhaid cefnogi hynny â mynediad at ofal plant o safon uchel, gan gynnwys darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, i bob plentyn.

...Ailadeiladu'n well

- Blaenoriaethu anghenion babanod wrth wneud penderfyniadau am waith ymateb ac adfer COVID-19.
- Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn sgîl COVID-19 yn llywio trefniadau polisi ac ymarfer yn y dyfodol. Dylai hynny gynnwys edrych ar y profiadau cadarnhaol y soniodd rhai teuluoedd amdanynt yn ystod y cyfnod clo er mwyn ystyried sut gall buddsoddi a mentrau gefnogi cryfhau'r sylfeini mewn cartrefi eraill.

Mae ymchwil yn dangos nad yw effeithiau COVID-19 wedi cael eu teimlo'n gyfartal. Mae wedi cael effaith anghymesur ar y rhai sy'n feichiog, yn rhoi genedigaeth, neu gartref gyda baban ifanc. Nid yw treulio cyfnodau estynedig gartref wedi bod yn brofiad hapus, iach i bob plentyn. Fodd bynnag, i blant eraill, mae'r profiad o dreulio cyfnodau estynedig gartref wedi bod yn un cyfoethog, llawn boddhad, a chyfeiriwyd at gyfleoedd a chanlyniadau cadarnhaol.

